# Adolygiad Gwella Ansawdd o Brifysgol Aberystwyth

## Yr Adroddiad Technegol

### Ebrill 2022

## Cynnwys


**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd ........ 1**
**Yr adolygiad hwn ........ 1**
**Yr adroddiad hwn ........ 1**
**Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Aberystwyth ........ 2**
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad ........ 2
2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd ........ 5
3 Darpariaeth gydweithredol ........ 14


*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1]
Ym mlwyddyn academaidd 2021-22, roedd cwmpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

# Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 25 a 27 Ebrill 2022. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mrs Claire Blanchard
- Yr Athro Diane Meehan
- Miss Nina Di Cara (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Cyn yr ymweliad adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso) a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

# Yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r Adroddiad Canlyniadau ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.[3]

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Canlyniadau: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Aberystwyth

# Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Aberystwyth

Mae Prifysgol Aberystwyth yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

## 1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

### 1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth ('y Brifysgol') yn 1872 ac mae'n dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed eleni. Roedd y Brifysgol yn un o sefydliadau gwreiddiol Prifysgol Cymru yn 1893, ac yn 2007 cafodd ei phwerau dyfarnu graddau a'i theitl prifysgol ei hun, ac ers 2009 dyfernir graddau Prifysgol Aberystwyth i'w myfyrwyr. Heddiw, mae'n brifysgol ganolig ei maint sy'n weithredol mewn ymchwil ac yn cynnig amrywiaeth eang o feysydd astudio ar draws y dyniaethau, y celfyddydau creadigol a'r gwyddorau ffisegol, naturiol a chymdeithasol. Yn wreiddiol, roedd y Brifysgol wedi ei seilio ar lan y môr yn yr Hen Goleg ond erbyn hyn mae'n addysgu'n bennaf ar gampws Penglais.

2 Cenhadaeth y Brifysgol yw cyflwyno addysg ac ymchwil sy'n ysbrydoli mewn amgylchedd cefnogol, creadigol ac eithriadol yng Nghymru. Mae Cynllun Strategol y Brifysgol ar gyfer 2018-23 yn nodi'r pum amcan trosfwaol canlynol: galluogi i'r myfyrwyr ddatgloi eu potensial; cefnogi ymchwilwyr i wneud ymchwil sy'n cael effaith o safon sydd ymysg y gorau yn y byd; cyfrannu'n sylweddol i Gymru a thu hwnt; bod yn brifysgol y bydd myfyrwyr yn dewis dod iddi o bob cwr o'r byd; a bod ag ymrwymiad i'r iaith Gymraeg ac i ddiwylliant Cymru.

3 Mae gan y Brifysgol 17 adran/ysgol/athrofa sydd wedi eu trefnu'n dair cyfadran, fel a ganlyn: Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, y Gyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol a'r Gyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd. Mae strwythur cyfundrefnol a rheoli cyffredin gan y cyfadrannau a chânt eu harwain gan Ddirprwy Is-Ganghellor y gyfadran benodol. Mae gan bob cyfadran Bwyllgor Materion Academaidd sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth academaidd.

4 Y Cyngor yw corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol. Mae'r Senedd yn gyfrifol i'r Cyngor am swyddogaethau academaidd y Brifysgol a rhan o hynny yw rheoleiddio buddiannau academaidd y myfyrwyr sy'n cynnwys goruchwylio'r ymlyniad â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd). Grŵp Gweithredol y Brifysgol, sy'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Brifysgol, yw uwch dîm rheoli'r Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor a'r pum Dirprwy Is-Ganghellor. Mae Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol ar wahân sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd fel bod goruchwyliaeth uniongyrchol gan y Senedd dros y maes hwn. Yna mae'r Bwrdd Academaidd sy'n adrodd i'r Senedd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, ac sydd â chyfrifoldeb am fonitro a gwerthuso safonau academaidd ac ansawdd y rhaglenni. Ar lefel y cyfadrannau, eu Pwyllgorau Materion Academaidd hwy sydd â rôl ganolog yn y broses o sicrhau a gwella ansawdd.

5 Mae'r Brifysgol wedi gwneud yn dda iawn mewn ymarferion asesu ansawdd ar lefel genedlaethol. Dyfarnwyd Gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr iddi yn 2018 ac, am ei sgorau yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), cadarnhawyd mai hi yw'r brifysgol ar y brig yng Nghymru am y chwe blynedd diwethaf yn olynol.

## 1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

6 Ar hyn o bryd, mae oddeutu 5,300 o fyfyrwyr israddedig llawn amser wedi eu cofrestru yn y Brifysgol. Mae'r nifer fechan o fyfyrwyr israddedig rhan amser ar y campws yn ailadrodd blynyddoedd astudio gan fwyaf. Mae oddeutu 45 o fyfyrwyr israddedig yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth sy'n astudio o bell. Ar raglenni ôl-raddedig a addysgir, mae ychydig dros 300 o fyfyrwyr llawn amser a 90 o fyfyrwyr rhan amser sy'n astudio ar gyfer graddau meistr a addysgir, ac mae oddeutu 650 o fyfyrwyr yn astudio o bell ar fodiwlau lefel meistr.

7 O ran y graddau ymchwil, mae oddeutu 250 o fyfyrwyr llawn amser wedi eu cofrestru ar gyfer graddau doethuriaeth broffesiynol a graddau MPhil a PhD. Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn nifer o bartneriaethau a chanolfannau sy'n darparu hyfforddiant doethurol yng Nghymru a ledled y DU. Mewn dwy o'r partneriaethau hyn, mae'r myfyrwyr wedi eu seilio a'u cofrestru i wneud eu gradd mewn un brifysgol, ond mae ganddynt oruchwylydd mewn dau bartner.

8 Y Brifysgol yw un o'r prif ddarparwyr addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac mae'n darparu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn amrywiaeth o feysydd astudio. Mae oddeutu 775 o'i myfyrwyr llawn amser presennol yn rhugl yn y Gymraeg.

9 Ar adeg yr adolygiad mae'r nifer o fyfyrwyr gradd sy'n astudio'n llawn amser ar y campws, sef 6,000, yn is o dipyn na'r nifer oedd yno adeg adolygiad y Brifysgol yn 2016. Mae'r Brifysgol wedi cynyddu nifer y graddau meistr integredig y mae'n eu cynnig, ac mae'n gweithio i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr o'r DU a thramor sy'n cofrestru ar gyfer ei darpariaeth graddau meistr lawn amser ar y campws. Er bod y nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig llawn amser a addysgir a dderbyniwyd yn 2021 yn is nag yn y flwyddyn flaenorol, cafwyd ehangiad yn y ddarpariaeth dysgu o bell a'r ddarpariaeth ôl-raddedig ran amser a addysgir.

10 Ymysg y datblygiadau allweddol a phwysig a wnaed gan y Brifysgol i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, ac i ateb anghenion yn y rhanbarth a'r cymunedau, oedd cyflwyno'r radd filfeddygol ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol ym mis Medi 2021, ynghyd â chynlluniau gradd cysylltiedig mewn Biowyddorau Milfeddygol. Am y tro cyntaf erioed, mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cymwysterau Nyrsio i nyrsys oedolion a nyrsys iechyd meddwl, o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd cyfle i'r myfyrwyr astudio hyd at hanner eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

11 Mewn perthynas â'r graddau a gyflawnwyd, mae gan y Brifysgol gyfran is o raddau anrhydedd da na phrifysgolion cymaradwy eraill. Er bod cynnydd i'w weld yn y nifer o fyfyrwyr a enillodd raddau anrhydedd da yn 2020 a 2021 o ganlyniad i'r trefnau rheoli COVID-19, mae'r Brifysgol wedi gweld llai o chwyddiant mewn graddau nag a welwyd mewn rhannau eraill o'r sector.

## 1.3 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

12 Sefydlodd y Bwrdd Academaidd weithgor i arwain y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad. Cadeirydd y grŵp oedd y Cofrestrydd Academaidd, tynnwyd ei aelodau o'r adrannau a'r gwasanaethau proffesiynol i gyd, a chyd-etholwyd aelodau ychwanegol fel y bo'r gofyn. Cynhwyswyd cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr hefyd, ynghyd â'r Rheolwr Cymorth a Chynrychiolaeth Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr. I sicrhau bod y staff yn gwybod am yr adolygiad ac am berchnogaeth y cyflwyniad, darparwyd diweddariadau rheolaidd drwy strwythur pwyllgorau ffurfiol y Brifysgol ac yng nghyfarfodydd penaethiaid yr adrannau academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol, yn ogystal â staff perthnasol eraill.

13 Croesawodd y Brifysgol yr hyblygrwydd a gafwyd yn sgil yr addasiadau a wnaed i'r broses adolygu ar gyfer 2021-22 drwy gynhyrchu un ddogfen gyflwyniad gyfunol oedd yn cynnwys dadansoddiad hunanwerthuso ac adroddiad newidiadau. Adolygwyd fersiynau drafft o ddogfennau gan y gweithgor, Grŵp Gweithredol y Brifysgol ac aelodau o'r Bwrdd Academaidd cyn eu cyflwyno i gyfarfod arbennig o'r Senedd i'w cadarnhau'n swyddogol.

14 Cyflwynodd Undeb y Myfyrwyr gyflwyniad ysgrifenedig ar wahân i'r Brifysgol a thîm adolygu'r Adolygiad Gwella Ansawdd, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion. Cyflwynodd y Brifysgol ymateb manwl i'r argymhellion ar ffurf cynllun gweithredu gyda diweddariadau am gynnydd.

### 1.4 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

15 Cafodd y Brifysgol ei hadolygiad blaenorol gan QAA ym mis Ebrill 2016, dan y teitl Adolygiad Addysg Uwch: Cymru. Gwnaeth y tîm adolygu bum argymhelliad ac un cadarnhad, a nodwyd un nodwedd o arfer da. Paratôdd y Brifysgol gynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a gweithredwyd y cynllun hwn hyd ei gwblhau yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17.

16 Rhoddodd y Brifysgol yr ymatebion a ganlyn i'r argymhellion. Yr argymhelliad cyntaf oedd sicrhau cyfranogiad systematig y myfyrwyr fel partneriaid yn y broses o gymeradwyo ac adolygu rhaglenni, yn ogystal â gwella profiad y myfyrwyr, ac mae myfyrwyr wedi eu cynnwys erbyn hyn yn aelodau ar banelau sy'n dilysu cynlluniau ac yn eu hadolygu'n gyfnodol. Trwy gyflwyno templed newydd gydag adrannau cyffredin ar gyfer llawlyfrau rhaglen, aethpwyd i'r afael â'r ail argymhelliad, sef sicrhau y gweithredir dull cyson ar gyfer apeliadau academaidd o fewn ac ar draws yr athrofeydd, ac hefyd y pedwerydd argymhelliad, sef sicrhau cysondeb yr wybodaeth graidd a ddarperir i fyfyrwyr mewn llawlyfrau o fewn ac ar draws yr athrofeydd. Mae'r Brifysgol wedi cymryd nifer o gamau gweithredu mewn ymateb i'r trydydd argymhelliad, sef sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn derbyn hyfforddiant addas cyn ymgymryd ag addysgu ac asesu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cyflwyno cofrestr ganolog o'r myfyrwyr sy'n addysgu, cyflwyno ei rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA) yn 2016 sydd wedi ei hachredu gan Advance HE ar lefel Cymrawd Cyswllt, a chymeradwyo fersiwn o Siarter Cyflogaeth Uwchraddedigion NUS/UCU. Hefyd, mae'r Brifysgol yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn prosiect a ariennir gan CCAUC i adolygu polisïau ac arferion yn ymwneud â myfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu. Yr argymhelliad olaf oedd atgyfnerthu a mynegi'n glir beth yw'r blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu ar lefel yr athrofeydd, ac aeth y Brifysgol i'r afael â hyn drwy gyflwyno cynllun gwella newydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd yn 2017.

17 Mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r 21 argymhelliad a wnaed yng nghyflwyniad y myfyrwyr, a chyflwynwyd diweddariad i'r Bwrdd Academaidd ym mis Mawrth 2017.

# 2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

## 2.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

18 Gweithredir dull Prifysgol Aberystwyth o reoli ansawdd drwy system integredig o brosesau sy'n digwydd ar bob lefel o'i darpariaeth academaidd, o adborth ar lefel modiwl i adroddiadau ansawdd blynyddol i Gyngor y Brifysgol. Mae Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol yn disgrifio'r holl brosesau, polisïau a systemau perthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd academaidd yn y Brifysgol. Mae'r llawlyfr yn hawdd cael gafael arno ar y wefan.

19 Gan y Cyngor, sef 'corff llywodraethol goruchaf' y Brifysgol, y mae'r cyfrifoldeb pennaf am lywodraethiant yn y Brifysgol. Mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys dau aelod o blith y myfyrwyr, sef Llywydd presennol Undeb y Myfyrwyr a Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth.

20 Y Senedd, dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor, yw awdurdod academaidd y Brifysgol, ac mae'n gyfrifol i'r Cyngor am swyddogaethau academaidd y Brifysgol. Mae'r Senedd yn adrodd i'r Cyngor drwy Ddatganiadau Sicrwydd Ansawdd blynyddol bob mis Rhagfyr, sy'n cynnwys crynodeb o weithgareddau sicrhau ansawdd rheolaidd, megis adroddiadau arholwyr allanol ac unrhyw gwynion ac apeliadau, yn ogystal â materion allweddol sy'n codi, law yn llaw â graddio risgiau. Mae cyflwyniad gan Undeb y Myfyrwyr wedi ei gynnwys hefyd yn rhan o'r adroddiad blynyddol hwn, sy'n rhoi trosolwg manylach o'r adborth a dderbyniwyd gan y myfyrwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gweithrediad system gynrychiolaeth y myfyrwyr. Mae'r Senedd yn cynnwys pum Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol, cadeirydd cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phennaeth Ysgol y Graddedigion, yn ogystal â chynrychiolwyr yr adrannau academaidd a thri aelod o blith y myfyrwyr sy'n swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr.

21 Mae'r Senedd yn goruchwylio cyfres o bwyllgorau allweddol, ac mae gan dri o'r rhain gyfrifoldeb am feysydd o'r Cod Ansawdd. Y tri hyn yw'r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr sy'n goruchwylio'r meysydd sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr, y Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol sy'n goruchwylio'r meysydd sy'n ymwneud â phartneriaethau, a'r Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am yr holl feysydd sy'n weddill, yn cynnwys y cyfrifoldeb am adolygu pa mor effeithiol yw prosesau sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol. Cadeirydd y Bwrdd Academaidd yw'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, ac mae ganddo gyfanswm o wyth is-bwyllgor, a thri o'r rhain yw Pwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau. Mae is-bwyllgorau eraill y Bwrdd Academaidd yn cynnwys y Pwyllgor Gwella Academaidd, y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, y Pwyllgor Cynllunio Portffolio, y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg, a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil.

22 Mae gan Bwyllgorau Materion Academaidd y tair cyfadran rôl allweddol ym mhrosesau rheoli safonau academaidd ac ansawdd y Brifysgol, ac maent o dan gadeiryddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor y gyfadran berthnasol. Maent yn gyfrifol am graffu'n fewnol ar adroddiadau arholwyr allanol a materion sy'n codi, y broses o fonitro cynlluniau astudio a addysgir yn flynyddol a chynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r ACF, ac am oruchwylio achrediadau i gynlluniau astudio gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB), sy'n derbyn ystyriaeth gan y Bwrdd Academaidd. Ar ran y Bwrdd Academaidd, maent yn rheoli addasiadau bychain i raglenni fel newidiadau yn eu strwythur. Maent hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo modiwlau newydd a rhai wedi eu hailstrwythuro, neu am atal modiwlau dros dro neu dynnu modiwlau allan. Mae eu swyddogaeth hefyd yn cynnwys gweithredu Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol, ac maent yn gyfrifol am brofiad y myfyrwyr a chymorth i'r myfyrwyr, er enghraifft gwerthusiadau modiwl a chynrychiolaeth y myfyrwyr. Mae problemau sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau a godir yng nghyfarfodydd yr adrannau, yn ogystal â'r rhai a godir gan fyfyrwyr, yn derbyn ystyriaeth gan Bwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau.

23 Mae system gynrychiolaeth y myfyrwyr yn allweddol hefyd ar gyfer cynnwys y myfyrwyr yn y system ansawdd. Hyfforddir cynrychiolwyr y myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr a'u prif ddull o ryngweithio â'r system ansawdd yw drwy Bwyllgorau Ymgynghori Staff-Myfyrwyr, lle mae'r staff a'r myfyrwyr yn cwrdd i drafod materion cyfredol. Hefyd, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr ar lefel y cyfadrannau'n eistedd ar Bwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau. Mae fforymau i'w cael hefyd yn benodol i gynrychiolwyr y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig leisio eu pryderon, yn bennaf Grŵp Ymgynghori'r Myfyrwyr Ymchwil sy'n adrodd i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr, sef naill ai cynrychiolwyr y cyrsiau a'r cyfadrannau neu swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr, wedi eu cynnwys ar bwyllgorau ymgynghori cyffredinol y Brifysgol, sy'n caniatáu i bryderon y myfyrwyr gael eu cynrychioli'n gywir ar y pwyntiau hynny pan wneir penderfyniadau lefel uchel.

24 Heblaw am y system gynrychiolaeth myfyrwyr, mae nifer o ddulliau o gynnwys y myfyrwyr yn y system ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon blynyddol o fyfyrwyr megis yr ACF, holiaduron gwerthuso modiwl a holiaduron 'ysgafn' ar gyfer gwerthuso modiwlau sy'n ddull o gasglu adborth canol modiwl, a chafodd y rhain eu cyflwyno yn 2020-21. Mae arweinwyr cyrsiau'n ystyried canlyniadau'r arolygon hyn, ac maen nhw'n arwain at gynlluniau gweithredu ar lefel modiwl, sy'n cael eu hadolygu ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu er mwyn canfod tueddiadau. Mae'r Brifysgol hefyd yn bwriadu cymryd rhan yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir yn y flwyddyn academaidd hon, ar ôl peidio cymryd rhan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd pryderon am gyfraddau ymateb isel yn ystod y pandemig. Yn ogystal ag arolygon, mae gan y Brifysgol system adborth myfyrwyr ddienw, a elwir yn 'Rho Wybod Nawr' sy'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr gyflwyno sylwadau unrhyw adeg o'r flwyddyn am unrhyw bwnc. Bwydir yr holl fecanweithiau adborth hyn i mewn i'r system ansawdd, naill ai drwy'r Pwyllgorau Ymgynghori Staff-Myfyrwyr neu drwy Bwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau.

## 2.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd

25 Mae gan y Brifysgol fframwaith priodol ar gyfer gosod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd. Mae ei strwythur pwyllgorau'n cefnogi'r gwaith o oruchwylio safonau'n effeithiol. Y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol ac mae'n gyfrifol i'r Cyngor am swyddogaethau academaidd y Brifysgol sy'n ymwneud â gwaith addysgu ac ymchwil, a rheoleiddio buddiannau academaidd y myfyrwyr. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Senedd yn gweithio drwy ei his-bwyllgorau, sef y Bwrdd Academaidd, y Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol, y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr, Pwyllgor Ymchwil, Bwrdd Arholi'r Senedd a Phwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

26 Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso safonau academaidd ac ansawdd y rhaglenni, gyda chefnogaeth gan ei is-bwyllgorau sy'n cynnwys y Pwyllgor Graddau Ymchwil sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y ddarpariaeth graddau ymchwil, gan gynnwys am oruchwylio'r safonau, a gan Bwyllgorau Materion Academaidd y tair cyfadran sy'n chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau ansawdd. Mae'r Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol yn rheoli ac yn goruchwylio gweithgareddau cydweithredol y Brifysgol, ac mae'n sicrhau eu hansawdd. Canfu'r tîm adolygu fod gan bob pwyllgor gylch gwaith ac aelodaeth sydd wedi eu diffinio'n glir; mae eu cofnodion yn gynhwysfawr ac maent yn dangos bod y safonau wedi eu goruchwylio'n gydwybodol.

27 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd cynhwysfawr yn cynnwys polisïau, prosesau a rheoliadau yn ymwneud â sicrhau ansawdd ac, fel y cadarnhawyd mewn cyfarfodydd â'r staff, mae'n cefnogi'r gwaith o oruchwylio safonau academaidd yn effeithiol. Yn dilyn ailstrwythuro'r Brifysgol yn 2018, casglwyd yr holl staff gweinyddol sy'n cefnogi dysgu ac addysgu at ei gilydd o dan un Gofrestrfa Academaidd gyffredin, gyda rhai staff wedi eu lleoli mewn cyfadrannau ynghyd â nifer o dimau canolog. Mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu, cadarnhaodd y staff bod y newid hwn wedi creu mwy o gadernid a chysondeb.

28 Mae gan y Brifysgol nifer o brosesau ar gyfer gosod a chynnal safonau ac mae'n eu gweithredu nhw'n effeithiol. Gosodir safonau i ddechrau drwy brosesau datblygu a chymeradwyo modiwlau a chynlluniau astudio, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Academaidd, Pwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau a'r Pwyllgor Cynllunio Portffolio. Mae'r prosesau o gynllunio a datblygu modiwlau a chynlluniau astudio'n rhoi ystyriaeth i ystod o bwyntiau cyfeirio allanol, yn sicrhau bod y canlyniadau dysgu'n cael eu gosod a'u hasesu ar y lefelau priodol, ac yn cynnwys ymgynghori â'r myfyrwyr, arholwyr allanol, arbenigwyr pwnc a chyrff PSRB. Mae newidiadau mawr i gynlluniau astudio neu ddatblygiadau mewn meysydd newydd o ddarpariaeth, sydd angen eu cadarnhau'n derfynol gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol, yn cael eu cymeradwyo drwy 'lwybr cymeradwyaeth y Grŵp Gweithredol' a'u hystyried gan y Panel Sefydlog Cymeradwyo Cynlluniau; mae arbenigwr pwnc allanol yn rhoi mewnbwn drwy adroddiad ysgrifenedig cyn cyfarfod y panel. Defnyddir y 'llwybr cymeradwyo sy'n osgoi'r Grŵp Gweithredol' ar gyfer cynigion am gynlluniau astudio sy'n ddatblygiad o fewn maes sy'n bodoli'n barod, ac ystyrir y cynigion ar lefel y cyfadrannau. Pan mae'r broses yn cynnwys y cyrff PSRB, gellir cynnal digwyddiadau cymeradwyo ar y cyd rhwng y Brifysgol a chyrff PSRB.

29 Adolygir y safonau academaidd drwy brosesau monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol. Mae'r Bwrdd Academaidd yn goruchwylio'r broses o fonitro cynlluniau astudio a addysgir yn flynyddol. Mae'r broses hon yn rhoi sicrwydd bod y cynlluniau astudio'n cwrdd â'u hamcanion a bod eu safonau'n cael eu cynnal. Mae adroddiadau ar lefel y cynlluniau astudio'n ystyried adborth gan arholwyr allanol a myfyrwyr ac maent yn cynnwys cynlluniau gweithredu, gan adrodd ar gamau gweithredu'r flwyddyn flaenorol; darperir pecynnau data ar gyfer cynlluniau astudio os yw'r rhifau'n berthnasol yn ystadegol. Mae adroddiadau ar lefel y cyfadrannau'n rhoi crynodeb o faterion allweddol, fel arferion da, arloesi, risgiau i'r safonau neu'r ansawdd a'r rheiny sydd angen sylw ar lefel y Brifysgol. Cynhelir adolygiad cyfnodol, sy'n digwydd bob pump i chwe blynedd, ar lefel yr adrannau ac mae'n cynnwys ail-ddilysu'r ddarpariaeth academaidd yn gyfnodol. Mae'r broses yn ymdrin â chynlluniau astudio a modiwlau a addysgir ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, y gwaith ymchwil ôl-raddedig a'r ddarpariaeth gydweithredol, ac ystyrir ystod o faterion yn cynnwys systemau adborth myfyrwyr, cydymffurfiad â phrosesau sicrhau ansawdd a datblygu a hyfforddi staff. Mae panelau adolygu'n cynnwys aelod allanol ac ystyrir y canlyniadau gan y Bwrdd Academaidd. Pennir a chymerir camau gweithredu mewn ymateb i'r canlyniadau hyn.

30 Mae'r polisïau a'r arferion asesu'n sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer y sector. Fel arfer, mae'r myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud eu harholiadau yn Gymraeg ac mae hawl gan fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg gael eu hasesu yn Gymraeg. Mae polisi'r Brifysgol ar gyfieithu gwaith a asesir yn sicrhau cywirdeb y broses. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag arferion academaidd annerbyniol, a chlywodd y tîm adolygu yn ei gyfarfodydd am y gwaith y mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o dwyll contract, a darparu hyfforddiant i'r staff mewn perthynas ag o.

31 Disgwylir i'r myfyrwyr dderbyn adborth am waith a asesir o fewn 15 diwrnod gwaith neu rhoddir esboniad. Ond, clywodd y tîm adolygu gan y myfyrwyr bod amrywiaeth sylweddol yng ngweithrediad y polisi hwn ar draws yr adrannau a chodwyd hyn hefyd yng nghyflwyniad y myfyrwyr. Yn ôl y Brifysgol, pan gafodd ei gyflwyno i ddechrau, cafwyd monitro dwysach o'r cydymffurfiad â'r polisi, ond erbyn hyn mae wedi ymwreiddio'n dda ac mae'r staff yn ei ddeall yn dda, a dywedodd y staff hynny mewn cyfarfodydd â'r tîm adolygu nad yw hwn yn fater a godir yn aml gan fyfyrwyr. Er hynny, mae'n amlwg bod myfyrwyr yn gweld amrywiaeth yn yr amser y mae'n gymryd i dderbyn adborth. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Brifysgol sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn adborth ar asesiadau mewn da bryd yn unol â gofynion y Brifysgol.

32 Mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod safonau'n cael eu gosod a'u cynnal ar lefel briodol. Ar gyfer dyfarniadau a addysgir, gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau am safonau academaidd y dyfarniadau, er mwyn cadarnhau a yw'r safonau wedi eu

gosod ar lefel sy'n briodol ar gyfer y dyfarniad ac a ydynt yn gyson â'r safonau mewn sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Gall arholwyr gyflwyno eu hadroddiadau yn y Gymraeg ac yna disgwylir i'r adrannau ymateb i sylwadau'n ddwyieithog. Dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu fod yr arholwyr allanol wedi cadarnhau bod y safonau'n briodol ac yn cyfateb â'r rheiny mewn sefydliadau tebyg, a'u bod yn cwrdd â'r disgwyliadau ar gyfer y sector, a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i'w hadborth; mae'r adrannau'n rhoi ymatebion llawn i unrhyw faterion a godir. Mae'r Bwrdd Academaidd yn ystyried crynodebau o adroddiadau arholwyr allanol a gynhyrchir gan y cyfadrannau; mae'r crynodebau hyn hefyd yn amlinellu ymatebion i faterion a godir ac yn tynnu sylw at faterion sydd angen ystyriaeth bellach gan Bwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau neu'r Bwrdd Academaidd. Trwy'r Bwrdd Academaidd y cymeradwyir enwebiadau ar gyfer arholwyr allanol rhaglenni a addysgir. Fodd bynnag, cadarnhaodd y tîm adolygu yn ei gyfarfodydd gyda'r staff uwch fod Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn cymeradwyo enwebiadau ar gyfer arholwyr allanol graddau ymchwil. Cadarnhaodd y Brifysgol hefyd nad oes goruchwyliaeth sefydliadol ychwanegol dros y broses gymeradwyo, sy'n golygu bod y broses yn y pen draw'n dibynnu ar unigolion. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn gweithredu system i sicrhau goruchwyliaeth ar lefel y sefydliad ar y broses o gymeradwyo arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau gradd ymchwil.

33 Yn unol â datblygiadau diweddar yn y sector, mae'r Brifysgol wrthi'n adolygu'r algorithm gradd y mae'n ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y Brifysgol ei bod yn gyffredinol fodlon bod ei harferion yn cydymffurfio ag egwyddorion llunio algorithmau da ond bod rhai elfennau, fel talgrynnu marciau'r modiwlau a'r cyfartaledd cyffredinol, nad ydynt efallai'n cyfateb â'r canllawiau newydd ac maen nhw'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

## 2.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

34 Mae'r Brifysgol yn defnyddio ystod o bwyntiau cyfeirio allanol yn ei phrosesau ansawdd. Mae'r dyfarniadau wedi eu halinio â'r Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch, y Datganiadau o Nodweddion Gradd a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn rhan o'r broses o gymeradwyo rhaglenni a modiwlau. Achredir nifer o gyrsiau hefyd gan gyrff PSRB. Mae'r cynlluniau astudio israddedig a'r cynlluniau ôl-raddedig a addysgir wedi cael eu hadolygu yn erbyn Datganiadau Meincnodi Pwnc, a chadarnhaodd y Brifysgol bod gofyn i'r adrannau gadarnhau eu bod yn dal i gyfateb â'r datganiadau meincnodi perthnasol pan mae'r rhain yn newid neu pan gynhelir adolygiad cyfnodol o'r adran. Rhaid cwblhau manyleb rhaglen ar gyfer pob cynnig am gynllun astudio newydd neu ddiwygiedig a rhaid cyfeirio'n benodol at y Datganiad Meincnodi Pwnc perthnasol. Er bod manylebau'r rhaglenni ar gael yn hawdd ar wefan y Brifysgol ac yn cydymffurfio â thempled cyffredin, canfu'r tîm adolygu bod nifer o'r manylebau hyn yn cynnwys cyfeiriadau sydd wedi mynd yn hen neu nid oes ganddynt gyfeiriadau o gwbl, neu mae cysylltiadau toredig â Datganiadau Meincnodi Pwnc. Cadarnhaodd y Brifysgol fod y fformat a ddefnyddir ar hyn o bryd ar y wefan wedi mynd yn hen ac mae hyn yn golygu ei bod yn anodd diweddaru'r manylebau, a dywedodd bod prosiect ar waith i newid y fformat er mwyn hwyluso diweddaru mwy rheolaidd. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau y cedwir manylebau rhaglenni'n gyfoes.

35 Er bod y Brifysgol wedi darparu dogfen gynhwysfawr sy'n mapio rhai o'i pholisïau a'i gweithdrefnau yn erbyn y Cod Ansawdd a'r ESG, ac er ei bod wedi dangos sut mae polisïau a phrosesau eraill, megis cymorth i ddysgu myfyrwyr, yn alinio â'r ESG, ni ddarparwyd dogfen fapio gyflawn. Cadarnhaodd y Brifysgol bod ei pholisïau a'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd wedi eu sefydlu gyda'r Cod Ansawdd yn brif bwynt cyfeirio allanol, a bod y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cyfeirio at y Cod. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn flynyddol i sicrhau bod ei pholisïau, ei gweithdrefnau a'i harferion yn alinio â'r disgwyliadau ar gyfer y sector a, lle gwneir newidiadau mawr i'r Cod Ansawdd neu i bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol eraill, mae'n cynnull gweithgor neu'n defnyddio grŵp y Deoniaid Cysylltiol i ystyried y newidiadau. Mae newidiadau i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Academaidd.

36 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd priodol o arholwyr allanol (gwelwch adran 2.2) ac mae arbenigwyr pwnc allanol yn darparu mewnbwn allanol i'r prosesau ar gyfer cymeradwyo cynlluniau astudio, a'r prosesau adolygu cyfnodol ar lefel yr adrannau.

## 2.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

37 Fel yr amlinellwyd yn adran 1.4, mae'r Brifysgol wedi ymateb yn llawn i bob un o'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad blaenorol gan QAA, ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yng nghyflwyniad y myfyrwyr. Yng nghyflwyniad cyfredol y myfyrwyr cafwyd sylwadau am y camau gweithredu a gymerwyd a nodwyd 27 argymhelliad newydd. Roedd rhai o'r rhain yn adlewyrchu materion a godwyd yng nghyflwyniad 2015, gan gynnwys defnydd anghyson o'r system tiwtoriaid personol ac amseriad yr adborth am waith a asesir. Mae'r Brifysgol wedi ymateb yn llawn ac wedi datblygu cynllun gweithredu newydd mewn ymateb i'r argymhellion presennol.

38 Yn 2020, aeth y Brifysgol ati i addasu ei harferion addysgu ac asesu mewn ymateb i'r pandemig. Roedd gweithgor yn goruchwylio pob addasiad i'r rheoliadau a materion eraill, ac yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd a oedd yn goruchwylio unrhyw newidiadau ac unrhyw faterion a godwyd. Argymhellodd y gweithgor y dylid seilio'r dyfarniadau ar y credydau a gwblhawyd, gan gynnwys elfen o ddiogelu a fyddai'n gadael i fyfyrwyr oedd wedi ennill dyfarniadau ond oedd yn anfodlon â'u canlyniadau, neu oedd heb basio, ailsefyll eu credydau er mwyn ennill marciau llawn i wella dosbarthiad eu gradd neu eu cyfartaledd dros y flwyddyn, a dim ond y canlyniadau gwell fyddai'n cyfrif. Rhoddid gwybod i'r myfyrwyr, yr arholwyr allanol a'r partneriaid cydweithredol am bob newid, a chynhaliwyd byrddau asesu ar-lein. Roedd yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n darparu hyfforddiant i'r staff a chefnogaeth barhaus i'r staff a'r myfyrwyr mewn perthynas ag addysgu ac asesu ar-lein.

39 Yn 2020-21, symudodd y Brifysgol at ddull darparu cyfunol ac ymdriniwyd â materion sicrhau ansawdd oedd yn gysylltiedig â'r pandemig gan grŵp y Deoniaid Cysylltiol a thrwy gyfarfodydd ychwanegol Pwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau. Gwnaeth y Dirprwy Is-Gangellorion a'r Deoniaid Cysylltiol Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y cyfadrannau asesiadau effaith ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd asesiadau yn lle arholiadau ar y safle, ac awgrymodd cyflwyniad y myfyrwyr y dylai hyn barhau lle bo'n briodol. Roedd y polisi ailsefyll diderfyn yn cynnwys traethodau hir ôl-raddedig ac roedd cyfle i'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gyflwyno ffurflen ynghyd â'u traethodau i ddisgrifio'r effaith a gafodd y cyfyngiadau yn sgil y pandemig ar eu gwaith.

40 Gallai nifer o'r myfyrwyr ymchwil wneud cais am estyniadau i'w cyllid drwy'r cyrff cyllido oedd yn berthnasol iddyn nhw a sicrhawyd cyllid CCAUC i fyfyrwyr oedd yn cael eu hariannu gan y Brifysgol. I fyfyrwyr eraill, rhoddwyd ystyriaeth hael i geisiadau am estyniadau yn sgil y pandemig, heb wneud y gofynion arferol am dystiolaeth. Roedd cyfle i'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gyflwyno ffurflen ynghyd â'u traethodau i ddisgrifio'r effaith a gafodd y pandemig COVID-19 ar eu gwaith, i roi gwybod i'w harholwyr am unrhyw newidiadau a wnaed, o ganlyniad i'r pandemig, i'r fethodoleg, y ffordd y casglwyd data, neu unrhyw agweddau eraill o'u gwaith. Dechreuodd y Brifysgol gynnal arholiadau ar lafar ar-lein hefyd lle'r oedd rhaid.

41 Wrth symud i hanner olaf blwyddyn academaidd 2020-21, rhoddodd y Brifysgol stop ar y rhan fwyaf o'r trefniadau dros dro hyn, ond cadwyd rhywfaint o hyblygedd o dan amgylchiadau arbennig. Ar y cyfan, roedd y myfyrwyr ar raglenni a addysgir y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n rhoi sylwadau cadarnhaol am y trefniadau a wnaed ond nodwyd hefyd, am fod y pandemig yn barhaus, y dylent fod wedi parhau'n hirach.

42 Cyhoeddodd y Brifysgol ei datganiad am y graddau anrhydedd dosbarth cyntaf a gyflawnwyd ym mis Mehefin 2020, a chafodd ei ddiweddaru ym mis Mehefin 2021. Mae'r datganiadau'n dangos cynnydd cyffredinol yn y gyfran o raddau anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch o 69% yn 2015-16 i 82% yn 2019-20, sef cynnydd o 13%. Mae'r Brifysgol yn nodi pedwar prif reswm am hyn: llai o arholiadau a mwy o asesu parhaus o ganlyniad i'r pandemig; nifer gynyddol o gynlluniau gradd meistr integredig pedair blynedd sy'n gofyn i fyfyrwyr gyflawni cyfartaleddau uwch er mwyn symud ymlaen; tynhau'r rheolau cynnydd sy'n gadael i fyfyrwyr ailadrodd yr ail flwyddyn i ennill marciau llawn gan olygu bod gostyngiad yn y myfyrwyr a gedwir sy'n debygol o ennill marciau is; asesiad ac adborth sy'n fwy effeithiol, prydlon a thrwyadl (er nad oedd hyn wedi ei adlewyrchu yn y sylwadau a gafwyd gan rai o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw - gwelwch baragraff 31) a gostyngiad yn y gymhareb myfyrwyr-staff yn ystod y cyfnod hwn. Adolygir adroddiadau am y graddau anrhydedd da a gyflawnwyd yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau a'r Bwrdd Academaidd, ac mae'r Datganiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol i'r Cyngor yn cynnwys yr adroddiadau yma erbyn hyn.

## 2.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

43 Mae'r Brifysgol yn defnyddio data mewn amrywiaeth o ffurfiau a chyd-destunau i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso ar draws gwahanol lefelau o'i system ansawdd, ac ar draws y gwahanol weithgareddau a weithredir drwy'r system honno. Mae'r rhain yn amrywio o drosolygon ar draws y sefydliad cyfan i ddata am y myfyriwr unigol.

44 Yr Adran Gynllunio sy' gyrru'r ddarpariaeth data am y corff myfyrwyr cyfan a'r darlun sefydliadol. Mae'r adran yn darparu data drwy ddangosfwrdd data rhyngweithiol am ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ar gyfer y dyfodol. Mae'r dangosfwrdd hwn ar gael i staff uwch yr adrannau academaidd ac mae'n rhoi gwybodaeth fanwl yn rheolaidd am gyfraddau cofrestriad, cadwraeth a chyrhaeddiad y myfyrwyr. Mae'r dangosfwrdd yn dangos gwybodaeth am y Brifysgol gyfan, ond mae modd defnyddio hidlyddion i ystyried y data yn ôl y gyfadran, yr adran, y dull astudio neu'r flwyddyn astudio. Mae'r Adran Gynllunio'n gweithio i annog staff i ddefnyddio'r adnoddau hyn wrth wneud penderfyniadau ac i sicrhau llythrennedd data ymhlith ei staff drwy ddarparu hyfforddiant a dangosiadau rheolaidd. Maen nhw hefyd yn cynhyrchu adroddiadau eraill ar lefel y sefydliad i'r pwyllgorau eu hystyried.

45 Defnyddir ac adroddir am ddata ar draws y pwyllgorau ymgynghori, o Bwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau i adroddiadau a roddir i'r Grŵp Gweithredol. Caiff y data am y graddau a gyflawnwyd ei fonitro yn ôl y tariffau mynediad, rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd a chaiff ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn goruchwylio data am gyfraddau cyflwyno, cwblhau a thynnu'n ôl y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Ar lefel y sefydliad, mae'r Pwyllgor Gwella Academaidd, sy'n is-bwyllgor i'r Bwrdd Academaidd, yn goruchwylio effeithiolrwydd y prosesau adborth myfyrwyr, gan gynnwys yr ACF a'r arolygon gwerthuso modiwl.

46 Yn ogystal â'r ffaith bod staff yr adran berthnasol yn gallu defnyddio'r dangosfyrddau a gynhyrchir gan yr Adran Gynllunio, un o'r prif ffyrdd y defnyddir data ar lefel yr adrannau yw drwy'r broses o fonitro cynlluniau astudio a addysgir yn flynyddol. Mae pecynnau data'n ofynnol yn rhan o'r broses ansawdd hon sy'n cynnwys gwybodaeth am gyflogadwyedd, marciau'r modiwlau, tariffau mynediad a'r sgorau a gafwyd yn yr ACF gyfer y flwyddyn flaenorol, sy'n sicrhau bod data perthnasol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Yna, mae'r Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'n casglu'r themâu ar draws cynlluniau gweithredu'r modiwlau ynghyd i greu cynlluniau gweithredu'r adrannau. Mae Pwyllgorau Materion Academaidd y cyfadrannau'n goruchwylio'r cynlluniau hyn ac yn rhoi adroddiad amdanynt i'r Bwrdd Academaidd. Hefyd, defnyddir y dadansoddiad thematig o'r sylwadau ansoddol a geir yn yr arolygon gwerthuso modiwl i ganfod themâu ehangach sydd wedyn yn hysbysu cynlluniau gweithredu'r adrannau a chynlluniau gweithredu'r modiwlau.

47 Gall aelodau o'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r myfyrwyr, megis tiwtoriaid personol, ddefnyddio'r systemau mewnol hefyd sy'n rhoi trosolwg o'r wybodaeth am gynnydd y myfyrwyr a addysgir, eu defnydd o adnoddau dysgu a'u presenoldeb. Mae'r systemau hyn yn galluogi i'r staff weld yn gyflym a oes unrhyw beth a allai achosi pryder am fyfyrwyr unigol, yn ogystal â llunio rhestrau i fonitro'r myfyrwyr hynny sydd efallai angen cymorth ychwanegol, ac mae grŵp defnyddwyr y system cofnodion myfyrwyr yn goruchwylio'r gwelliannau i'r galluoedd hyn.

## 2.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu

48 Gwneir gwelliannau i'r dysgu a'r addysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth gan brosesau ansawdd a weithredir drwy'r strwythur pwyllgorau ymgynghori, drwy weithgareddau megis y broses o fonitro cynlluniau astudio a addysgir yn flynyddol, a thrwy system gynrychiolaeth y myfyrwyr. Hefyd, rhoddodd y Brifysgol gefnogaeth ychwanegol ar waith drwy sefydlu grŵp arbennig i weithredu newidiadau i ddulliau dysgu, addysgu ac asesu mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, er mwyn sicrhau y cynhelir y prosesau sicrhau ansawdd a'u bod yn parhau i ateb anghenion y staff a'r myfyrwyr. Yna, gallai Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol ddarparu cefnogaeth datblygiad proffesiynol i'r staff wrth drosglwyddo i ddysgu ar-lein.

49 Gwelodd y tîm adolygu esiamplau niferus ar lefelau'r ysgolion, y cyfadrannau a'r sefydliad o'r ffordd y mae casglu data am yr adborth gan y myfyrwyr drwy arolygon gwerthuso modiwl a chyswllt â chynrychiolwyr y myfyrwyr wedi arwain at welliannau yn ansawdd y dysgu a'r addysgu y mae'r myfyrwyr yn eu derbyn - o farcio gwell ar lefel modiwl, i anawsterau gyda throsglwyddo i ddysgu ac addysgu ar-lein ac i gydweithio ag Undeb y Myfyrwyr drwy gydol y pandemig. Er bod tystiolaeth o hyn mewn cofnodion ac adroddiadau, dywedodd rhai o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw na roddwyd gwybod am y canlyniadau i'r myfyrwyr yn aml iawn os byddai camau gweithredu'n cael eu dwyn ymlaen y tu hwnt i lefel y cyfadrannau, i bwyllgorau lefel uwch.

50 Mae'r cynlluniau gweithredu a ddatblygir ar sail y system werthuso modiwl yn greiddiol i'r prosesau o wella a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Yn ogystal â hynny, mae'r cynlluniau gweithredu hynny a ddatblygir ar sail y prosesau monitro blynyddol yn cynnwys synthesis o argymhellion gan arholwyr allanol hefyd, a data a gasglwyd ar gyfer meincnodi fel y disgrifiwyd yn adran 2.5, gyda meysydd o arfer da a gwelliant wedi eu rhannu ar draws yr adrannau.

51 Mae'r iaith Gymraeg yn agwedd bwysig o'r systemau ansawdd sy'n ymwneud â'r dysgu a'r addysgu yn y Brifysgol, a chefnogir hyn gan ymrwymiad y sefydliad i'r Gymraeg. Clywodd y tîm adolygu bod y rheiny sy'n gweithio ac yn astudio yn y Brifysgol yn gwerthfawrogi hygyrchedd y dysgu a'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn fawr. Roedd gwersi Cymraeg ar gael i staff a myfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ac anogwyd hyn gan y Brifysgol a gan gydweithwyr. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gefnogaeth sefydledig sydd ar gael yn hawdd i staff sy'n addysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i staff a myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg, ac mae hwn yn annog cyfranogaeth ac ymgysylltiad â'r iaith.

52 Yn rhan o'r system ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol, dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr ar raglen a addysgir sy'n darparu cymorth academaidd iddyn nhw ac sy'n eu cyfeirio at gymorth ar gyfer materion bugeiliol. Dywedodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod amrywiaeth amlwg rhwng gwahanol diwtoriaid personol - o ran eu hargaeledd, eu gallu i gyfeirio'r myfyrwyr at y gwasanaethau y mae'r Brifysgol yn eu darparu, a'r sylw a delir i'r materion a godir gan y myfyrwyr. Nododd y tîm adolygu bod cyflwyniad Undeb y Myfyrwyr hefyd wedi codi pryderon am effeithiolrwydd y system tiwtoriaid personol. Clywodd y tîm adolygu am fentrau newydd sy'n cael eu datblygu i gefnogi tiwtoriaid personol yn well i helpu eu myfyrwyr, ond mae'n aneglur sut y byddai'r Brifysgol yn ei sicrhau ei hun bod y system tiwtoriaid personol yn gweithredu'n gyfartal, ac fel y bwriadwyd, ar draws ei hadrannau a'i chyfadrannau. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar y defnydd a wneir gan y staff a'r myfyrwyr o'r system tiwtoriaid personol a'u hymgysylltiad â'i gofynion.

## 2.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

53 Mae gan y Brifysgol drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau safonau academaidd. Cefnogir yr oruchwyliaeth ar y safonau gan ei strwythur pwyllgorau sydd wedi ei ddiffinio'n dda, ac mae adroddiadau rheolaidd gan ei his-bwyllgorau'n helpu i roi sicrwydd i'r Senedd bod y safonau'n cael eu cynnal. Mae'r Senedd yn adolygu datganiad sicrwydd ansawdd blynyddol cynhwysfawr y Brifysgol sy'n adrodd am sicrhau a gwella ansawdd a safonau, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r datganiad hwn yn sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Cyngor i'w alluogi i gwblhau'r datganiad sicrwydd ansawdd blynyddol i CCAUC. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn gronfa hygyrch a cynhwysfawr o bolisïau, rheoliadau a gweithdrefnau sy'n cefnogi'r gwaith o reoli'r safonau academaidd a'r ansawdd.

54 Gosodir safonau i ddechrau drwy brosesau datblygu a chymeradwyo cynlluniau astudio, ac mae hyn yn sicrhau bod y safonau'n alinio â'r pwyntiau cyfeirio allanol. Mae'r Brifysgol yn ei sicrhau ei hun fod y safonau'n cael eu cynnal drwy ei phrosesau cadarn o fonitro blynyddol ac adolygu cyfnodol, sy'n cael eu goruchwylio gan ei Bwrdd Academaidd. Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn goruchwylio safonau'r graddau ymchwil, ac mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd am gyfraddau cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, yn ogystal ag adborth gan arholwyr allanol.

55 Mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o oruchwylio safonau (gwelwch adran 2.2), ac mae cyfle iddyn nhw godi pryderon yn uniongyrchol â'r Is-Ganghellor, os bydd angen. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn rhoi sylwadau'n benodol am safonau academaidd y dyfarniadau ac yn cadarnhau a yw'r safonau a osodir yn briodol i lefel y dyfarniad ac a ydynt yn gyson â'r safonau mewn sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol.

56 Yn ddiweddar, yn gyfatebol â'r sector, mae'r Brifysgol wedi adolygu'r algorithm gradd y mae'n ei ddefnyddio, ac mae wrthi'n ystyried nifer o ddatblygiadau. Ers yr adolygiad blaenorol, mae'r Brifysgol hefyd wedi gwneud newidiadau i'w rheoliadau a'i harferion asesu, gan gynnwys newidiadau i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu graddau cyffredin, diddymu'r opsiwn o 'ddechrau o'r dechrau eto' oedd yn gadael i fyfyrwyr ailgychwyn Lefel 5 o'r newydd gan ddiddymu eu holl farciau blaenorol, a newidiadau i reoliadau ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig a addysgir sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i fyfyrwyr adalw methiant. Gwnaethpwyd trefniadau priodol yn ystod y pandemig i sicrhau y cynhelir y safonau gan roi ystyriaeth arbennig i brofiad y myfyrwyr (gwelwch adran 2.4).

## 2.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

57 Nododd y Brifysgol bod cynhyrchiad blynyddol yr Adroddiad Sicrwydd Ansawdd i'r Cyngor yn rhan allweddol o'u hatgyfnerthiad blynyddol o dueddiadau a digwyddiadau nodedig yn eu cylchoedd sicrhau ansawdd. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi cyfle blynyddol i'r Brifysgol hunanwerthuso ei phrosesau sicrhau a gwella ansawdd. I'w helpu i wneud penderfyniadau a'i gwerthuso ei hun, mae'r Brifysgol yn llunio adroddiadau am feysydd allweddol o sicrhad ansawdd gan sgorio risgiau, ac mae hyn yn ei helpu i ganfod a fyddai meysydd penodol o'r system ansawdd yn elwa o dderbyn sylw pellach. Mae'r Brifysgol yn gwerthuso'r data a ddisgrifiwyd yn adran 2.5 yn fwy rheolaidd i hysbysu ei systemau ansawdd, a gellir gweld hyn drwy ei phwyllgorau ymgynghori, a'i phrosesau monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol ar gyfer cynlluniau astudio a addysgir. Mae hyn yn arwain at ddiweddariadau blynyddol i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

58 Datblygwyd rhai o ddulliau defnyddio data presennol y Brifysgol diolch i'r defnydd cynyddol o systemau digidol, megis defnyddio meddalwedd ar-lein i gymharu testun sy'n helpu i ganfod llên-ladrad ac sy'n galluogi cofnodi'r amseroedd cyflwyno'n awtomatig, neu

ddadansoddi data dysgu'n well drwy fesur ymgysylltiad y myfyrwyr â systemau dysgu digidol. Mae cynlluniau yn eu lle roi systemau digidol pellach ar waith, megis system lle gall myfyrwyr wneud cais am ystyriaeth i amgylchiadau arbennig, a bydd gweithredu'r rhain yn golygu ei bod hi'n haws i'r Brifysgol ddefnyddio data i oruchwylio ei phrosesau'n well, ac i'w gwerthuso wedyn. Un o'r prif systemau sydd wrthi'n cael eu gweithredu yw system newydd o reoli'r ddarpariaeth ymchwil ôl-raddedig a fydd yn galluogi i brosesau adolygu blynyddol, goruchwylio, a newid goruchwylwyr, ac ati, gael eu monitro'n haws ac yn fwy cyson. Yn ystod yr ymweliad adolygu, cyfarfu'r tîm â'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig oedd wedi cael profiadau anghyson o brosesau monitro blynyddol a goruchwylio, a dywedodd rhai nad oeddent wedi cael adolygiad blynyddol ers nifer o flynyddoedd. O ystyried yr anghysondeb hwn, ac hefyd y manteision a gafwyd o weithredu'r system newydd o fonitro'r ddarpariaeth ymchwil ôl-raddedig i ddatrys problemau o'r fath, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r rhaglen waith y mae'r Brifysgol yn ei dilyn i ddatblygu system ddigidol newydd a fydd yn sicrhau gwell goruchwyliaeth ar lefel sefydliadol o brofiadau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

# 3 Darpariaeth gydweithredol

## 3.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

59 Clywodd y tîm adolygu bod yr oruchwyliaeth dros y ddarpariaeth bartneriaeth wedi cryfhau yn dilyn ailstrwythuro'r Brifysgol gyfan yn 2018 diolch i'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd ar ei newydd wedd, sy'n gyfrifol erbyn hyn am sicrhau ansawdd y gweithgareddau partneriaeth gydweithredol sy'n arwain, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, at ddyfarniadau Prifysgol Aberystwyth. Mae'r Brifysgol wedi ei hymrwymo i adeiladu perthnasoedd cryf gyda phartneriaid yn y DU a thramor sy'n rhannu ei gweledigaeth a'i hethos i ddarparu addysgu o safon uchel a arweinir gan ymchwil a phrofiad rhagorol i'w myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i sicrhau bod ei darpariaeth o'r safon uchaf er mwyn cefnogi'r Brifysgol i ddarparu rhaglenni cydweithredol sydd ar gael i ymgeiswyr o bob cwr o'r byd ac sy'n galluogi i'r myfyrwyr ddatblygu sgiliau gydol oes priodol sy'n berthnasol i gymunedau lleol a chymunedau byd-eang fel ei gilydd.

60 Clywodd y tîm adolygu fod y Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn defnyddio dull sy'n ystyried risgiau, ac mae'r Swyddfa ei hun yn rheoli prosiectau cydweithredol sydd â risgiau canolig ac uchel. Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn monitro'r lefelau risg, yn cynnwys agweddau o raglenni a chymwysterau sydd mewn perygl o beidio cydymffurfio â'r gofynion ariannol neu gyfreithiol. Mae wrthi'n gweithio i ddatblygu dulliau asesu risgiau ar sail data meintiol ac ansoddol sydd wedi eu llunio i ganolbwyntio ar y meysydd a allai beri'r risgiau uchaf i'r Brifysgol a hynny drwy ddefnyddio data meincnodi i sicrhau ansawdd a systemau o fonitro cydymffurfiad â rheoliadau.

61 Yn ogystal â rheoli risgiau ac ymrwymiadau cytundebol, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a safonau'r ddarpariaeth drwy drefniadau partneriaeth. Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn gyfrifol am y polisïau a'r prosesau ar gyfer cymeradwyo, sicrhau diwydrwydd dyladwy, gwneud asesiadau risg, a monitro a rheoli gweithgareddau partneriaeth gydweithredol, ac mae'n gyfrifol hefyd am yr adran yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd am Ddarpariaeth Gydweithredol. Diweddarwyd y prosesau, y rheolau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â phartneriaethau i gyfateb â'r diwygiadau a wnaed gan QAA i'r Cod Ansawdd. Hefyd, diweddarwyd y bennod am Ddarpariaeth Gydweithredol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a gwblhawyd yn derfynol ac a gymeradwywyd i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2020.

62 Mae aelod o staff y Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys rhoi crynodeb am gynnydd prosiectau cydweithredol ymhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol ac yn yr Adroddiad Blynyddol am Bartneriaethau. I'r Cyngor, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn llunio adran 'partneriaethau' y Datganiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol am Bartneriaethau. I'r Brifysgol, ac, yn arbennig, i'w Phwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd a'i Phwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn cynhyrchu adroddiadau am y prosesau hynny sydd mewn perygl o beidio cydymffurfio â'r gofynion, neu os oes mathau eraill o risg wedi eu nodi.

63 Clywodd y tîm adolygu fod y cyfadrannau'n rheoli trefniadau partneriaeth sydd â risgiau isel a chanolig yn uniongyrchol - trefniadau fel datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith sydd â chredydau. Rheolir partneriaethau recriwtio myfyrwyr sydd â risgiau gweddol isel (sy'n derbyn myfyrwyr gyda safle cyffredin a safle uwch, megis drwy gytundebau cynnydd), a phartneriaethau i gefnogi symudedd myfyrwyr (megis cyfnewidiadau myfyrwyr, cyfleoedd i astudio dramor a rhaglenni Erasmus) gan yr Is-adran Cyfleoedd Byd-eang a'r Is-adran Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol sydd wedi eu lleoli yn yr Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr Byd-eang. Darperir adroddiadau am y rhain drwy'r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr, sydd yn ei dro'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd.

64 Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd benodol yn rheoli prosiectau partneriaeth sydd â risgiau uchel, megis cytundebau i etholfreinio, dilysu, neu ddarparu graddau deuol/ar y cyd, a chydweithrediadau sydd â risgiau canolig, megis y rheiny sy'n arwain at ddyfarnu credydau'r Brifysgol, trosglwyddo credydau i ddyfarniadau neu gredydau'r Brifysgol, neu at fodiwlau'n cael eu dilysu gan y Brifysgol. Fel arfer, partneriaethau i gefnogi symudedd myfyrwyr yw'r prosiectau risg canolig hyn ac mae hynny'n cynnwys trefniadau trosglwyddo.

65 Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn hwyluso'r gwaith o archwilio syniadau i greu partneriaethau newydd, yn gwneud ymholiadau diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg ar y cychwyn, ac yn cysylltu'n agos â'r Swyddfa Gyllid am achos busnes y bartneriaeth berthnasol. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi'r cyfadrannau i wneud ymweliadau safle a chyflwyno cynigion i'r pwyllgorau perthnasol ar gyfer cymeradwyo partneriaethau, modiwlau a chynlluniau. Yn ogystal, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn hwyluso trafod a llunio cytundebau contract, ac, yn dilyn sefydlu'r bartneriaeth yn llwyddiannus, mae'r tîm yn galluogi i'r cyfadrannau fonitro'r prosesau o sicrhau safonau academaidd ac ansawdd y bartneriaeth a goruchwylio rheolaeth weithredol ar ddarpariaeth y bartneriaeth. Mae tîm y Swyddfa Partneriaethau Academaidd hefyd yn hwyluso trafodaethau am adnewyddu a/neu derfynu'r bartneriaeth.

66 Clywodd y tîm fod y Brifysgol wedi adolygu a diweddaru'r adran o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn ddiweddar sy'n ymwneud â dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau gwaith. Mae'r adran hon yn ymwneud â modiwlau a chynlluniau astudio sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith. Nod cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yw galluogi i fyfyrwyr ennill profiadau ystyrlon mewn lleoliad a fydd yn hyrwyddo gwelliant i'w rhagolygon gyrfaol; mae hyn yn gofyn gweithio'n agos â'r cyflogwyr.

67 Mae'r adran o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith yn disgrifio dull cymesur o reoli'r dysgu seiliedig ar waith drwy gytundebau ffurfiol. Mae'r cytundeb hwn yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o safon uchel sy'n sicrhau profiad y myfyrwyr ac sy'n cyfateb â'r canlyniadau dysgu ar lefel modiwl neu gynllun astudio, ac mae'n egluro beth yw'r cyfrifoldebau a'r hawliau sydd gan y cyflogwr, y Brifysgol a'r myfyrwyr yn ystod eu cyfnod ar leoliad gwaith. Mae'r llawlyfr hefyd yn ymwneud â'r prosesau cymeradwyo ac adolygu i sicrhau'r ansawdd a'r safonau a phrofiad y myfyrwyr, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu amgylchedd diogel i'r myfyrwyr, gyda chyfrifoldebau ar y staff, y myfyrwyr a'r darparwyr. Mae hefyd yn disgrifio'r gofynion i fonitro cynnydd y myfyrwyr. Mae gan y cyfadrannau gyfrifoldebau goruchwylio er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr wedi eu paratoi'n ddigonol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith gyda rhaglen cyn lleoliad, eu bod wedi eu cefnogi a'u hasesu'n briodol a bod ganddynt ganlyniadau dysgu clir.

68 Yn ystod y cyfarfod adolygu â'r myfyrwyr, cadarnhaodd y myfyrwyr oedd wedi bod ar leoliadau gwaith eu bod wedi derbyn cymorth i sicrhau lleoliad a bod cefnogaeth ar gael iddyn nhw drwy gydol y lleoliad os ydynt ei angen. Mae gan bob myfyriwr diwtor academaidd personol sy'n ymweld â'r myfyriwr ar adegau a gytunir o flaen llaw, megis ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd y lleoliad gwaith. Gall y myfyrwyr hefyd gysylltu â'r tiwtor unrhyw bryd yn ystod y lleoliad gwaith ac os bydd unrhyw broblemau'n codi, cânt eu trin yn brydlon.

## 3.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

69 Clywodd y tîm adolygu fod y Brifysgol yn ceisio cynyddu ei darpariaeth gydweithredol. Mae'r Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr Byd-eang wrthi'n gweithio i ddenu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol a chynyddu'r nifer o geisiadau o dramor ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau wedi i'r nifer ostwng yn dilyn Brexit. Mae nifer y ceisiadau o dramor wedi cynyddu yn dilyn datblygu rhaglenni MBA i bortffolio newydd o raglenni MBA proffesiynol sydd wedi eu llunio'n benodol i ateb gofynion ac anghenion myfyrwyr o wahanol ranbarthau o'r byd.

70 Cafwyd ehangiad hefyd dros y sesiynau diweddar yn y ddarpariaeth dysgu o bell a'r ddarpariaeth ôl-raddedig rhan amser a addysgir. Drwy'r cynlluniau hyn, cynigir darpariaeth i weithwyr proffesiynol sy'n gyflogedig yng Nghymru a thu hwnt. Yn yr un modd, mae'r rhaglen ran amser MA mewn Addysg (Cymru) yn cynnig darpariaeth ôl-raddedig a addysgir i weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn adolygu'r posibilrwydd o ehangu ei darpariaeth dysgu o bell.

71 Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn goruchwylio dwy radd ddeuol ar y cyd, tri threfniant etholfreinio, un trefniant dilysu, a nifer fechan o drefniadau partneriaeth gydweithredol eraill gyda phartneriaid yng Nghymru a thramor. Mae gan y Brifysgol gytundebau etholfreinio gyda Choleg Cambria, Coleg Gwent a Choleg Brickfields Asia. Mae ganddi gytundeb dilysu â Menter a Busnes ac, yn ddiweddar, mae wedi cymeradwyo gradd israddedig (BVSc mewn Milfeddygaeth) a ddarperir ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol. Mae'r Brifysgol yn cynnig rhaglen y mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cyfrannu dau fodiwl ati, a gradd ddeuol ôl-raddedig a addysgir ar y cyd ag American University yn Washington, UDA, er nad yw'r rhaglen hon wedi derbyn unrhyw fyfyrwyr eto. Clywodd y tîm adolygu bod dwy bartneriaeth yn cael eu dwyn i derfyn ar hyn o bryd.

72 Mae'r Brifysgol hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o bartneriaethau a chanolfannau sy'n darparu hyfforddiant Doethurol. Ymhob un o'r sefyllfaoedd hyn, mae'r myfyrwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer y radd mewn un partner, ac yn cael eu monitro a'u harholi gan y brifysgol honno. O ganlyniad, maent yn atebol i'w rheolau, ei rheoliadau a'i threfnau derbyn hithau. Yn ogystal â darparu cyfleoedd ariannu a chyfleoedd dysgu nodedig i fyfyrwyr doethuriaeth, mae'r partneriaethau'n darparu gweithgareddau hyfforddi a datblygu ychwanegol y tu hwnt i'r gweithgareddau datblygu y mae'r Brifysgol yn eu cynnig i'w myfyrwyr ymchwil. Mae nifer cynyddol o leoliadau gwaith ar gael a ariennir mewn diwydiant a lleoliadau gwaith eraill yn rhan o'r partneriaethau hyn, yn ogystal â dyfarniadau gradd doethuriaeth mewn cydweithrediad â phartneriaid o'r tu allan i'r sector addysg uwch sy'n cymryd rhan yn y prosiectau. Cyfarfu'r tîm adolygu â rhai o'r myfyrwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn rhai o'r cynlluniau astudio hyn. Mae'r Brifysgol yn dal i fod yn gyfrifol am yr holl drefniadau sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â'r prosiect PhD yn yr achosion hyn.

73 Cadarnhaodd y myfyrwyr fod amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael iddynt sy'n cynnwys lleoliadau gwaith sy'n amrywio o ran hyd, cyfleoedd i astudio neu weithio dramor a chynlluniau cyfnewid rhyngwladol. Clywodd y tîm adolygu fod y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd o wahanol hyd i weithio neu wirfoddoli mewn gwlad arall, er enghraifft am flwyddyn academaidd gyfan, un semester neu rai wythnosau yn ystod y gwyliau. Gall y myfyrwyr ar y mwyafrif o raglenni gradd fynd dramor am gyfnod o semester yn ystod eu hail flwyddyn astudio neu am flwyddyn astudio gyfan. Mae'r myfyrwyr ar raglenni gradd sydd â blwyddyn integredig o astudio dramor yn mynd dramor yn ystod eu trydedd flwyddyn astudio.

74 Mae'r myfyrwyr ar raglenni gradd ieithoedd modern yn byw dramor yn ystod eu trydedd flwyddyn astudio, ac yn astudio neu'n gweithio yng ngwlad eu prif iaith astudio. Gall y myfyrwyr ar raglenni gradd sydd â blwyddyn integredig o weithio mewn diwydiant wneud rhan o'r flwyddyn, neu'r flwyddyn gyfan, dramor. Gall myfyrwyr ar unrhyw radd fynd ar raglen fer hefyd.

75 Yn ystod yr adolygiad, cadarnhaodd y myfyrwyr fod help a chymorth ar gael iddynt i ganfod a sicrhau lleoliad addas a, thra byddent ar eu lleoliad, cânt eu cefnogi gan diwtor sy'n ymweld â nhw ac yn cadw mewn cysylltiad â nhw yn ystod y lleoliad. Cyn iddynt fynd ar leoliadau gwaith tramor, mae'r myfyrwyr yn cael gweithdai i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol. Ar ôl dychwelyd o'u lleoliadau gwaith neu eu hastudiaethau dramor, cynigir gweithdai i'r myfyrwyr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o sgiliau sy'n eu galluogi i fyfyrio ar y profiadau a gawsent yn ystod eu hastudiaethau dramor y gallent sôn amdanynt mewn cyfweliadau ac wrth wneud cais am swyddi ar ôl graddio. Clywodd y tîm y bydd polisi drafft ar gyfer lleoliadau gwaith yn hysbysu gweithredoedd o flwyddyn academaidd 2021-22 ymlaen

ac y bydd lleoliadau wedi eu cofnodi ar gronfa ddata 'TARGETconnect'. Bydd y polisi drafft ar gyfer lleoliadau gwaith yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd ym mis Medi 2022. Clywodd y tîm fod y Brifysgol yn bwriadu cynyddu nifer y cyfleoedd byd-eang sydd ar gael i'r myfyrwyr ar hyn o bryd.

76 Mae'r Brifysgol eisiau cymryd mantais i'r eithaf o'r ariannu newydd sydd wedi dod ar-lein a manteisio ar gyfleoedd byrrach, er enghraifft cyfleoedd yn ystod gwyliau'r haf, i roi cipolwg i'r myfyrwyr ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn gweithio ar ei chais am arian o'r rhaglen 'Taith' a fydd yn caniatáu ac yn hwyluso cydgyfnewidiaeth â phrifysgolion partner yn Ewrop.

77 Clywodd y tîm adolygu bod datblygiadau mewn partneriaethau academaidd yn alinio i raddau mawr â chynlluniau'r Brifysgol sydd wedi eu diffinio'n eang mewn nifer o feysydd. Dyma nhw: hybu enw da'r Brifysgol drwy'r byd i gyd drwy'r ymddiriedaeth mewn gweithgareddau partneriaeth addysg drawswladol o safon uchel sydd o fudd i'r myfyrwyr er mwyn hwyluso twf mewn penodi myfyrwyr rhyngwladol; buddsoddi yn y cymunedau lle mae campysau'r Brifysgol drwy fentrau gwledig megis milfeddygaeth a nyrsio er mwyn cefnogi targedau Llywodraeth Cymru; ehangu darpariaeth sydd â ffocws galwedigaethol i bontio'r bwlch mewn meysydd sgiliau lle mae'r galw'n uchel; cynnig darpariaeth newydd ar y cyd â darparwyr addysg bellach fel partneriaid, yn cynnwys graddau sylfaen; a darparu datblygiad proffesiynol parhaus, er enghraifft drwy bartneriaethau yng Nghymru. Canfu'r tîm fod y Brifysgol wrthi'n gweithio i ddatblygu Strategaeth Addysg Bellach benodol, ac mae wedi sefydlu gweithgor i edrych ar y cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg uwch a darpariaeth addysg bellach, ac ar 'daith y dysgwr gydol oes'. Mae'r meysydd cysylltiedig ar gyfer archwilio yn y dyfodol yn cynnwys micro-gymwysterau, darpariaeth DPP a darpariaeth dysgu cyfunol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd y mae'r Brifysgol yn ymateb i'r anghenion cyflogadwyedd ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddatblygu partneriaethau pwrpasol ac arloesol newydd.

## 3.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr

78 Clywodd y tîm fod y cyfrifoldeb am reoli a goruchwylio gweithgareddau partneriaeth gydweithredol sy'n arwain at ddyfarnu graddau Prifysgol Aberystwyth yn cael ei ysgwyddo gan y Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd. Mae'r bwrdd yn dod â chydweithwyr at ei gilydd o bob rhan o'r Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau partneriaeth a threfniadau cydweithredol yn y DU a thramor. Cadeirydd y Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol yw'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr. Yn ogystal â chraffu a chymeradwyo'r gweithgareddau hyn ac argymell eu cymeradwyo, mae'r Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol hefyd yn adolygu cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol yn derbyn y canlynol i'w hystyried: strategaethau ar gyfer datblygu partneriaethau a'r dulliau ffurfiol o fonitro ac adolygu darpariaeth academaidd mewn partneriaeth, megis cofnodion rhaglenni a ddarperir ar y cyd, adroddiadau tiwtoriaid cyswllt ac adroddiadau monitro blynyddol am gynlluniau astudio a addysgir gan bartneriaid. Canlyniad y broses flynyddol o adolygu'r dogfennau cysylltiedig yw'r Adroddiad Blynyddol am Bartneriaethau Cydweithredol sy'n ymdrin â phob prosiect risg uchel sydd o dan gylch gwaith y Swyddfa Partneriaethau Academaidd.

79 Nod yr Adroddiad Blynyddol am Bartneriaethau Cydweithredol yw rhoi tystiolaeth briodol i gorff llywodraethol a rhanddeiliaid allweddol Prifysgol Aberystwyth i'w galluogi i gadarnhau a yw'r Brifysgol wedi cyflawni, ac yn parhau i gyflawni, ei dyletswyddau i sicrhau ansawdd ei threfniadau partneriaeth. I'r Cyngor, mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn llunio adran 'partneriaethau' y Datganiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol am Bartneriaethau Cydweithredol. Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn cynhyrchu adroddiadau i ddau is-bwyllgor i'r Cyngor: y Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.

80 Canfu'r tîm fod y Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a safonau'r ddarpariaeth drwy drefniadau partneriaeth, ac am reoli risgiau ac ymrwymiadau cytundebol. Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn gyfrifol hefyd am y polisïau a'r prosesau ar gyfer cymeradwyo, sicrhau diwydrwydd dyladwy, gwneud asesiadau risg, a monitro a rheoli gweithgareddau partneriaeth gydweithredol, ac am yr adran yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd am Bartneriaethau Academaidd. Mae aelod o staff y Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys paratoi briffiau prosiectau i bob partneriaeth newydd. Mae'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd yn adolygu ei rhyngweithio mewn perthynas â strategaethau'r Brifysgol yn barhaus, gan gynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer 2018-23 a'i strategaethau a'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig, megis y cynllun gweithredu sy'n rhan o'r Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr.

81 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn darparu'r wybodaeth berthnasol i'r staff a'r canllawiau sydd eu hangen i gymeradwyo, sicrhau diwydrwydd dyladwy, gwneud asesiadau risg, a monitro, rheoli a diddymu gweithgareddau partneriaeth gydweithredol. Mae hefyd yn cyflenwi'r broses newydd o gael cymeradwyaeth y Grŵp Gweithredol i achosion busnes sy'n ymwneud â phrosiectau partneriaeth gydweithredol. Mae'r polisïau a'r prosesau sydd wedi eu diweddaru'n ymwreiddio gweithgareddau partneriaeth o fewn y prosesau ansawdd gweithredol safonol, ac mae'r polisïau a phrosesau hyn hefyd wedi hwyluso'r gwaith o ganfod a chofnodi'r gweithgareddau hynny sy'n amlwg yn gydweithredol. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys ffurflenni sydd ag adrannau ychwanegol sy'n benodol berthnasol i weithgareddau partneriaeth er mwyn galluogi i'r partneriaid ymgysylltu â phrosesau sicrhau ansawdd safonol y Brifysgol, megis y broses o fonitro cynlluniau astudio a addysgir yn flynyddol, yr arolygon gwerthuso modiwl, ac adroddiadau'r arholwyr allanol.

82 Ceir lefelau ychwanegol o fonitro a rheoli drwy Lawlyfr Gweithredu pwrpasol ar gyfer partneriaethau, Cyd-fyrddau Rhaglenni dwyflynyddol ac adroddiadau ymweliadau'r tiwtoriaid cyswllt, yn ogystal â Gwerthusiad Perfformiad Partneriaid newydd sy'n fwy cadarn. Cadarnhaodd staff y colegau partner eu bod yn cyfranogi yn y prosesau hyn.

83 Yn ystod ei gyfarfodydd â staff a myfyrwyr y partneriaid cydweithredol, canfu'r tîm fod y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd yn derbyn cefnogaeth dda gan y Brifysgol. Mae'r tiwtor cyswllt yn ymweld â safleoedd y partner perthnasol i drafod y rhaglen astudio berthnasol ac mae'n llunio adroddiad sy'n cael ei fwydo yn ôl i'r Swyddfa Partneriaethau Academaidd. Hefyd, gall y myfyrwyr ddefnyddio'r llyfrgell yn y Brifysgol ac e-adnoddau'r Brifysgol. Mae llawer o gyfleoedd ar gael i'r myfyrwyr roi adborth am eu cyrsiau, er enghraifft drwy arolygon gwerthuso modiwl, mewn cyfarfodydd â'r tiwtoriaid cyswllt perthnasol, a thrwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol y coleg ei hun.

84 Mae staff y colegau partner yn derbyn cefnogaeth dda hefyd ac fe'u gwahoddir i'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol a gynhelir yn y Brifysgol, ac mae sesiynau hyfforddi DPP wedi eu diweddaru ar gael iddyn nhw ar y rhith-amgylchedd dysgu, yn ogystal â hyfforddiant pwnc-benodol, os bydd angen. Roedd staff y colegau partner yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth y mae'r Brifysgol yn ei rhoi iddyn nhw. Teimlai'r partneriaid i gyd bod cefnogaeth dda ar gael iddyn nhw yn ystod y pandemig. Mae'r cyfathrebu'n gweithion dda a rhoddir gwybod iddyn nhw am yr holl bolisïau a gweithdrefnau mewn da bryd.
I gloi, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y berthynas gefnogol a chydweithredol y mae'r Brifysgol yn ei datblygu gyda'i phartneriaid sy'n galluogi iddyn nhw gymryd rhan gyfartal yn y bartneriaeth.

**QAA2669 - R13106 - Gorffennaf 2022**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)